Gwen Redvers Jones

ADNABOD AWDUR

Lluniau: Ann Lenny

Dyddiad Geni 24 Ebrill 1930

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Cefais fy ngeni ym Mlaenau Ffestiniog ac yna bûm yn byw yn Y Friog, Dolgellau, Penmynydd (Ynys Môn) a Llangefni.

Ble cawsoch chi eich addysg?
Mewn ysgolion cynradd yn ardal Dolgellau ac yna yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, Ysgol Gyfun Llangefni a Phrifysgol Cymru Caerdydd a Bangor.

Beth oeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?
Roeddwn i'n hoffi chwarae, creu drygioni, athletau ac ysgrifennu storïau. Doeddwn i ddim yn hoffi mathemateg na gwisgo sanau gwlân du, hir.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?
Mam.

Beth oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?
Alice in Wonderland, Wind in the Willows a Luned Bengoch.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?
Plant, haul a blodau.

Beth sy'n eich gwylltio chi?
Pobl sy'n gas wrth eraill neu sy'n eu diystyru.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?
Wnes i ddim meddwl – roedd o'r peth naturiol i'w wneud.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?
Mae o'r eiddo mwyaf gwerthfawr sydd gen i. Roeddwn i'n saith oed a llyfr Saesneg ydy o!

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?
Ydw, ond mae cymaint o bethe eraill yn galw.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
Gwrando ar blant a gwylio pobl.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?
Mwynhewch y profiad.

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?
Na, dwi ddim yn meddwl – ond eu teimladau nhw ydy 'nheimladau i.

Pa un o'ch llyfrau chi yw eich ffefryn?
Dim un. Mae pob un yn blentyn i mi.

Pa un yw eich hoff gymeriad?
Yr un ateb ag uchod.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?
Oes, fy nhrwyn. Cael coesau tewach a gwneud un peth yn iawn yn lle trio gwneud pob peth.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?
Rhaglenni natur, cerddoriaeth, Rownd a Rownd a Coronation Street.

Beth yw eich hoff fwyd?
Cinio Dydd Sul a lot o refi.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?
Dywediadau fy wyresau, a Billy Connolly.

gwales.com

Gwen ydw i. Gwraig Maldwyn. Mam Rhys, Dafydd a Manon. Nain Gwenno, Carys, Sioned a Ffion – nhw sydd yn y llun gyda fi. Dwi'n gyn-athrawes i lond gwlad o bobl sydd wedi bod yn blant. A dweud y gwir, dyma fy niddordeb pennaf i. Beth? Plant! Hynny yw heblaw chwerthin, chwarae (gyda phlant a chreu annibendod). Ych a fi, y clirio lan!

Pan oeddwn i'n blentyn, amser maith yn ôl, byddai fy nhad yn gofyn i mi'n aml, "Beth wyt ti licio'i wneud orau, Gwen?". Fy ateb bob tro oedd, "Chwarae". A phan fyddwn i'n dod adref o'r ysgol byddwn yn mynd i'r gegin a dweud, "O! Mam, dwi wedi chwerthin heddiw."

Peidiwch â dweud hyn ar goedd, ond byddai fy nhad yn dweud, "Dydy athrawon byth yn tyfu i fyny – dydyn nhw byth yn gadael yr ysgol!" Dwi'n falch mod i ddim wedi tyfu i fyny.

Ond dyna sy'n od o un sy'n hoffi chwarae a chwerthin – dwi bob amser yn ysgrifennu am blant neu bobl ifanc sydd â thristwch yn eu bywyd. Plant sy'n cael eu diystyru. Pam? Sai'n gwybod.

Dwi'n dwlu ar ysgrifennu. Dywedodd Islwyn Ffowc Elis wrtha i, "Gwen, os fedrwch chi beidio ysgrifennu – peidiwch".

Dwi ddim yn gallu peidio. Bob hyn a hyn daw rhyw ysfa a rhaid rhoi stori ar bapur. Sut mae'r ysfa'n dod? I mi, ran amlaf, wrth eistedd yn pipo ar bobl (tu fas i Safeways tra mae Maldwyn yn siopa), gweld person sy'n edrych yn ddiddorol, agor y ffenest a gwrando ar bobl yn siarad. Dyna'r dechrau. Joio wedyn nes bod y cyfrifiadur yn pallu. Nid arno fe mae'r bai – sai'n berson 'high tech'. Rhowch bapur a beiro i mi bob tro. Mwynhewch chwarae. Mwynhewch chwerthin, ac os na allwch chi beidio – mwynhewch ysgrifennu.

Llyfrau Gwen Redvers Jones sy'n dal mewn print:

Bai Pwy? £3.75 1855965119 Dref Wen
nofel i'r arddegau
Beth Nesa'? – Nofelau Nawr £3.50 1859028446 Gomer
nofel ar gyfer dysgwyr da CA4
Cochyn £3.50 1859027806 Gomer
stori yng nghyfres Corryn
Y Rhufeiniaid (ar y cyd gyda D Cyril Jones)
£5.99 1856449009 CAA – llyfr hanes CA2/3

Addasiadau

O'r Lludw gan Michael Morpurgo
£3.95 1843231395 Gomer – stori yng nghyfres Corryn.
Gêm Gyfeillgar gan Michael Foreman
£9.99 1860853676 Uned Iaith/CBAC

Enillodd Gwen Redvers Jones wobr Tir na n-Og ddwywaith - yn 1984 gyda **Herio'r Cestyll** ac yn 1998 gyda **Dyddiau Cŵn**